# FFURFLEN GAIS AM SWYDD

## Gan gynnwys Canllawiau

- Gallwch hefyd ymgeisio ar-lein yn www.sirddinbych.gov.uk
- Darllenwch y canllawiau cyn llenwi eich ffurflen gais.
- Defnyddiwch inc du ac ysgrifennwch mor glir a darllenadwy ag y bo modd.
- Nid yw CVs yn unig yn dderbyniol. Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r ffurflen gais a ddarperir (mae fformatau eraill ar gael ar gais).
- Rhaid i bob rhan o'r ffurflen gais gael ei llenwi oni bai y nodir fel arall.
- Cofiwch lenwi a dychwelyd y ffurflen fonitro cyfle cyfartal gan ei bod yn rhan hanfodol o'n cyfrifoldeb mewn perthynas â chyfle cyfartal. Bydd eich atebion yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni fyddant yn effeithio ar eich cais am swydd mewn unrhyw ffordd.
- Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.
- Os ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad neu asesiad, nodwch yn y blwch isod a hoffech y cyfweliad neu asesiad yn Gymraeg.
- Llenwch y ffurflen gais am swydd hon, a'i dychwelyd drwy ddefnyddio'r swm postio cywir a nodi 'Preifat a Chyfrinachol' ar yr amlen i: **Rhian Davies, Cynorthwyydd AD y Clwstwr, Ysgol Glan Clwyd, Ffordd Dinbych, Llanelwy, LL17 ORP, neu gellir ei e bostio** i swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y ffurflen gais neu'r broses recriwtio, yna mae croeso i chi anfon neges e-bost at swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk neu ffonio 01745 582611 yn ystod oriau gwaith sef rhwng 8:30am a 4.30pm dydd Llun i ddydd Iau a 4:00pm ddydd Gwener.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ar gyfer y swydd | | | |
| Gwasanaeth | | | |
| Adain | | Rhif y swydd | |
| Graddfa | | Dyddiad Cau | |
| Dewis iaith yr ohebiaeth | | Cymraeg ☐ | Saesneg ☐ |
| Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad / asesiad, nodwch eich dewis iaith | | Cymraeg ☐ | Saesneg ☐ |

**Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg**

# CANLLAWIAU I’R YMGEISYDD

Mae eich cais yn bwysig i ni ac mae’n rhan bwysig o’r broses ddethol. Mae'n bwysig bod y ffurflen yn cael ei llenwi cyn llawned a chyn gywired ag y bo modd. Bydd y panel sy’n llunio’r rhestr fer yn penderfynu ar bwy fydd yn cael eu cyfweld yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais ac yn cyd-fynd â hwn yn erbyn y meini a roddir yn y ffurflen gais yn unig ac yn cymharu hyn yn erbyn y meini prawf hanfodol a dymunol a amlinellir yn y manylion am yr unigolyn.

## MANYLION PERSONOL

Rhowch yr holl fanylion a ofynnir amdanynt, gan mai dyma’r wybodaeth fyddwn ni’n ei defnyddio i gysylltu â chi.

## ADDYSG, HYFFORDDIANT AC AELODAETH

Nodwch yn glir ar y ffurflen ganlyniadau unrhyw arholiadau/cyrsiau rydych wedi’u cwblhau neu sydd ar y gweill, gan y bydd rhan o'r broses ddethol yn seiliedig ar yr addysg a hyfforddiant a restrir yn y manylion am yr unigolyn. Os cewch eich dewis ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, rhaid i chi ddarparu prawf gwreiddiol o gymwysterau. Bydd gofyn i chi ddod â'r dogfennau hyn gyda chi i'r cyfweliad.

## GWAITH

Dylech gwblhau'r adran hon i gyd, gan ddarparu gwybodaeth am bob cyfnod mewn gwaith ers gadael addysg lawn amser, ynghyd â dyddiadau sy'n dangos y mis a'r flwyddyn y cawsoch eich penodi a phryd ddaru chi adael y swydd. Rhaid i chi hefyd nodi'n glir unrhyw fylchau mewn cyflogaeth, gan gynnwys dyddiadau ac esbonio'r rheswm dros y bwlch mewn cyflogaeth h.y. magu teulu, gofalu am berthynas, blwyddyn i ffwrdd, ac ati

## DATGANIAD ATEGOL

Dyma eich cyfle i hyrwyddo eich hun a darparu tystiolaeth eich bod yn cyfateb â'r meini prawf hanfodol a dymunol a amlinellir yn y manylion am yr unigolyn. Rhowch enghreifftiau a dangos, lle y bo'n bosibl, sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y manylion am yr unigolyn a chynnwys unrhyw ddiddordebau eraill a allai fod yn berthnasol i'r swydd. Rhaid i ymgeiswyr fodloni pob un o'r meini prawf **hanfodol** (o leiaf) er mwyn cael eu gwahodd am gyfweliad.

## DEDDF ADSEFYDLU TROSEDDWYR 1974

Ar gyfer swyddi lle mae mynediad sylweddol at blant a / neu oedolion, bydd angen datgeliad GDG. Nid yw Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (eithriadau) Gorchymyn 1975 yn caniatáu i weithwyr gyda mynediad at blant a / neu oedolion yr hawl i atal gwybodaeth am euogfarnau troseddol blaenorol, rhybuddion ac ymrwymiadau, gan gynnwys y rhai sydd ‘wedi darfod’ - rhaid i bob un gael eu datgan. Cyfeiriwch at y canllawiau ymgeisio llawn cyn llenwi'r adran hon o'r ffurflen gais.

## CYNLLUN GWARANTU CYFWELIAD (CGC) I YMGEISWYR ANABL

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael y dyfarniad ‘Cynllun Gwarantu Cyfweliad Dau Dic Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl’ - ac rydym wedi ymrwymo i gyfweld pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni pob un o'r meini prawf **hanfodol** y swydd yr ymgeisir amdani. Os ydych yn gwneud cais am y swydd hon o dan y 'Cynllun Gwarantu Cyfweliad' llenwch yr adran berthnasol yn y ffurflen gais a rhoi gwybod i ni am unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen i sicrhau bod y cyfweliad yn hygyrch i chi. Edrychwch ar y canllawiau ymgeisio llawn am fanylion pellach.

**GEIRDAON**

Ymgeiswyr allanol - mae angen i chi nodi enwau a chyfeiriadau y ddau gyflogwr diwethaf y gellir cysylltu â hwy er mwyn cael geirda i gefnogi eich cais. Os yw'r ddau eirda yma yn cyfeirio at gyfnod llai na thair blynedd, yna nodwch fanylion yr holl gyflogwyr a gawsoch am y cyfnod o dair blynedd.

Ymgeiswyr Mewnol yn Unig - Rhaid i ymgeiswyr mewnol ddarparu un geirda gan y rheolwr atebol presennol. Byddwn yn gwneud cais am eirdaon ar ôl i ni gynnig y swydd i chi. Mae pob penodiad yn destun cael geirdaon boddhaol.

## MANYLION PERSONOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Math o Ymgeisydd** | | | |
| **Math o Ymgeisydd** | Mewnol ☐ Allanol ☐ | | |
| Os mai cais mewnol ydi hwn, rhowch eich rhif cyflog (y 5 rhif/llythyren olaf) | | | |
| **Rhif Cyflog** | | | |
| **Enw** | | | |
| **Teitl** | | | |
| **Enw** | | | |
| **2il enw** | | | |
| **3ydd enw** | | | |
| **Cyfenw** | | | |
| **Rhif Nawdd Cymdeithasol (Rhif Yswiriant Gwladol)** | | | |
| **Manylion Cyswllt – Cyfeiriad Gartref** | | | |
| **Enw'r Tŷ** | | | |
| **Rhif y Tŷ / Stryd** | | | |
| **Ardal Leol** | | | |
| **Tref Bost** | | | |
| **Sir** | | **CÔD POST** | |
| **Manylion Cyswllt** - Cofiwch sicrhau eich bod yn rhoi o leiaf un rhif ffôn | | | |
| **Cyfeiriad e-bost** | | | |
| **Rhif ffôn eich cartref** | | | |
| **Rhif ffôn symudol** | | | |
| **Rhif ffôn gwaith** | | | |

| Os yw cael trwydded yrru ddilys yn un o ofynion y swydd, llenwch yr adran hon. Bydd y gofyniad hwn yn cael ei nodi yn y manylion am yr unigolyn. | |
|---|---|
| **A oes gennych drwydded yrru gyfredol?** | Oes ☐ Nac oes ☐ |
| **Os mai 'Oes' yw eich ateb, nodwch gategorïau'r drwydded** | |

## ADDYSG, HYFFORDDIANT AC AELODAETH

**Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol**
Nodwch unrhyw sefydliadau proffesiynol yr ydych chi'n aelod ohonynt ar hyn o bryd. Dylai hyn gynnwys manylion cofrestru Athrawon / Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC) / Cyngor Gofal lle bo hynny'n berthnasol. Cewch ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen.

| Enw'r Sefydliad | Rhif Aelodaeth | Lefel Aelodaeth | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Terfyn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Cymwysterau**
Nodwch y pwnc, lefel, dyddiad, gradd a man dysgu. Hefyd, dylech gynnwys unrhyw gymwysterau rydych yn astudio ar eu cyfer ar hyn o bryd. Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu prawf gwreiddiol o'u cymwysterau yn y cyfweliad. Cewch ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen.

| Man Dysgu | Dyddiad Cwblhau'r Gymhwyster | Testun | Lefel Cymhwyster | Gradd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## GWAITH

**Hanes Cyflogaeth**

Nodwch y swydd fwyaf diweddar yn gyntaf. Dylech gynnwys unrhyw fylchau mewn cyflogaeth, gan esbonio'r rheswm drostynt, dyddiadau dechrau a gorffen. Cewch ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw a chyfeiriad y Cyflogwr** | | | | | |
| **o** | | **i** | | **Cyflog** | |
| **Teitl y Swydd** | | | | | |
| **Manylion y swydd** | | | | | |
| **Rhesymau dros Adael** | | | | | |

| **Enw a chyfeiriad y Cyflogwr** | **o** | **i** | **Teitl y Swydd** | **Cyflog** | **Manylion y swydd** | **Rhesymau dros Adael** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

**Datganiad Ategol**

Rhowch wybodaeth am y sgiliau a'r profiadau rydych wedi'u cael drwy waith cyflogedig a / neu wirfoddol, a gweithgareddau eraill a diddordebau sy'n berthnasol i'ch cais ar gyfer y swydd hon. Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi manylion sy'n dangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y manylion am yr unigolyn gan mai dyma'r dystiolaeth a fydd yn cael ei hystyried wrth lunio rhestr fer am gyfweliad.  Cewch ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen.

| GWYBODAETH |
|---|
| **Llenwch yr adran hon os yw gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn un o ofynion y swydd ac yn cael ei amlinellu yn y dogfennau sy'n ymwneud â'r swydd,**<br>**Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 -** Dan ddarpariaethau'r Ddeddf hon a'r Rheoliadau, fel arfer, nid oes angen i chi ddatgelu manylion am unrhyw euogfarnau sydd 'wedi darfod'. Fodd bynnag, os teimlir bod hon yn swydd sy'n dod i gysylltiad sylweddol gyda phlant ac / neu oedolion, bydd gofyn i chi roi eich caniatâd i Gyngor Sir Ddinbych ofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) os cewch gynnig y swydd. Bydd unrhyw wybodaeth a dderbynnir yn cael ei hystyried wrth asesu eich addasrwydd ar gyfer cyflogaeth. Rhaid i chi ddatgelu pob cerydd a rhybudd. Cewch ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen.<br><br>**RHAID I CHI DDATGELU POB EUOGFARN, RHYBUDD, CERYDD A RHYBUDDION.** |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi erioed wedi cael eich dyfarnu'n euog, wedi cael cerydd neu wedi cael eich rhybuddio mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd troseddol?** | Do ☐ Naddo ☐ |
| **Os mai 'Do', oedd eich ateb, rhowch fanylion llawn am bob trosedd. Cewch ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen.** | |
| **Os ydych wedi tanysgrifio i wasanaeth diweddaru GDG, ticiwch Do / Naddo** | Do ☐ Naddo ☐ |

| |
|---|
| **Cynllun Gwarantu Cyfweliad (CGC) i Ymgeiswyr Anabl**<br>Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwarantu cyfweld ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd. Nid oes rhaid i ymgeiswyr ag anableddau ddarparu unrhyw wybodaeth oni bai eu bod eisiau gwneud hynny, a bydd unrhyw wybodaeth am eu hanabledd yn cael ei defnyddio i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hystyried dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad. |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n dymuno cael eich ystyried fel rhan o'r cynllun CGC?** | Ydw ☐ Nac ydw ☐ |

| |
|---|
| **Perthynas ag Aelodau neu Weithwyr**<br>Er mwyn sicrhau bod pob un sy'n rhan o'r broses recriwtio a dethol yn wrthrychol, mae'n rhaid i ni gael gwybod os ydych yn perthyn neu fod gennych berthynas bersonol agos gydag Aelod etholedig, Llywodraethwr Ysgol neu Weithiwr Cyflogedig Cyngor Sir Ddinbych. Os oes, rhowch fanylion isod. Bydd ymgeisydd sy'n peidio â datgelu perthynas o'r fath yn fwriadol yn cael ei wahardd rhag cael cynnig y swydd. |

| | |
|---|---|
| **Rhowch fanylion** | |

| |
|---|
| **Argaeledd ar gyfer Cyfweliad**<br>Nodwch unrhyw ddyddiadau yn y ddeufis nesaf na fyddwch ar gael ar gyfer cyfweliad onid yw'r hysbyseb yn nodi dyddiad(au) y cyfweliad. Bydd y panel recriwtio yn ceisio trefnu dyddiad addas ar gyfer ymgeiswyr gan ystyried y dyddiadau a restrir isod, fodd bynnag, ni ellir gwarantu hyn. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiadau** | |
| **Ble gwelsoch chi'r hysbyseb am y swydd?** | |
| **Sut brofiad gawsoch chi wrth wneud cais am swydd wag gyda ni?** | |
| **Unrhyw sylwadau pellach?** | |

## GEIRDAON

Rhowch enwau a chyfeiriadau eich dau gyflogwr diwethaf y gallwn ofyn iddo/iddi am eirda. Os yw'r ddau eirda yma yn cyfeirio at gyfnod llai na thair blynedd, yna nodwch fanylion yr holl gyflogwyr a gawsoch am y cyfnod o dair blynedd.

NI DDYLECH enwebu perthnasau, partneriaid, Aelodau Etholedig nac unrhyw aelod o Gorff Llywodraethu Ysgolion fel canolwyr oni bai mai swydd pennaeth mewn ysgol sydd dan sylw. Byddai gwneud hynny yn golygu na fyddai modd ystyried y cais. Ni fyddwn yn gofyn am eirdaon oni bai eich bod yn cael cynnig y swydd. Mae'r penodiadau i gyd yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol.

Ymgeiswyr Mewnol yn Unig - Rhaid i ymgeiswyr mewnol ddarparu un geirda gan y rheolwr atebol presennol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i recriwtio i swydd mewn ysgol.

Derbynnir geirdaon am gymeriad pan fo'r ymgeisydd newydd adael yr ysgol neu nad yw wedi'i gyflogi mewn unrhyw swydd o'r blaen. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu un canolwr gan uwch aelod o staff o'u hysgol, coleg neu brifysgol a'r llall yn eirda cymeriad addas.

Rydym yn cadw'r hawl i gysylltu ag unrhyw un o'ch cyflogwyr blaenorol.

| | |
|---|---|
| **Enw a Chyfeiriad Llawn y Canolwr** | |
| **Teitl Swydd y Canolwr** | |
| **Rhif Ffôn Cyswllt y Canolwr** | |
| **Cyfeiriad E-bost y Canolwr** | |

| | |
|---|---|
| **Enw a Chyfeiriad Llawn y Canolwr** | |
| **Teitl Swydd y Canolwr** | |
| **Rhif Ffôn Cyswllt y Canolwr** | |
| **Cyfeiriad E-bost y Canolwr** | |

## DATGANIAD

**Deddf Diogelu Data 1998 -** Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Wrth lofnodi'r ffurflen hon rydych yn cytuno i'r data hwn gael ei gadw, ei storio, ei ddefnyddio a'i brosesu yn ôl yr angen gan Gyngor Sir Ddinbych at bwrpas cyflawni eu swyddogaeth gyhoeddus, i fonitro cyfle cyfartal ac i atal a chanfod troseddau. Gallwn ddatgelu eich manylion personol i gyrff allanol, os oes ganddynt reswm rhesymol dros ddatgelu'r data hwnnw ac i'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu.

**Tystiaf fod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir ar adeg ei llenwi. Rwy'n deall os byddaf yn methu rhoi gwybodaeth neu'n rhoi gwybodaeth anghywir y gallai hyn arwain at dynnu'r cynnig o gyflogaeth yn ôl neu at gamau disgyblu a allai arwain at ddiswyddo.**

**Llofnod** ........................................................................................ **Dyddiad** / /

## FFURFLEN FONITRO CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n berthnasol i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Bydd y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon yn aros yn gwbl gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion ystadegol yn ôl gofynion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn unig. Wrth lenwi'r ffurflen hon, rydych yn rhoi caniatâd i Gyngor Sir Ddinbych ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer dadansoddiad ystadegol. **Ni fydd** y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn effeithio ar unrhyw benderfyniadau recriwtio a wneir amdanoch chi.

**1. Oed**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan 20 ☐ | 20 – 29 ☐ | 30 – 39 ☐ | 40 – 49 ☐ | 50 – 59 ☐ | 60 oed a hŷn ☐ |

**2. Rhyw**

| | |
|---|---|
| Benyw ☐ | Gwryw ☐ |

**3. A yw eich hunaniaeth rhyw yr un fath â'r rhyw a roddwyd i chi ar adeg eich enedigaeth?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydi ☐ | Nac ydi ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud: ☐ |

**4. Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?**
(Person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hir dymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw ☐ | Nac ydw ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud ☐ | Manylion am y nam: |

**5. A ydych ar hyn o bryd neu a ydych chi?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn feichiog ☐ | Ar gyfnod mamolaeth ☐ | Wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud ☐ |

**6. Beth yw eich tueddiad rhywiol?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Heterorywiol / strêt ☐ | Hoyw / Lesbiad ☐ | Deurywiol ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud ☐ |

**7. Beth yw eich statws perthynas?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sengl ☐ | Partneriaeth sifil gyda'r un rhyw ☐ | Priod ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud ☐ |

**8. Beth yw eich grŵp ethnig?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | | Cefndir Asiaidd Arall | | Cymysg Gwyn a Du – Caribïaidd | | Tsieineaidd | |
| Asiaidd-Indiaidd | | Du Caribïaidd | | Cymysg Gwyn a Du – Affricanaidd | | Sipsi / Roma / Teithiwr Gwyddelig | |
| Asiaidd-Pacistanaidd | | Du – Affricanaidd | | Cymysg Gwyn ac Asiaidd | | Mae'n well gen i beidio â dweud | |
| Asiaidd-Bangladeshi | | Cefndir Du Arall | | Cymysg Arall Cefndir | | | |

Grŵp Ethnig Arall rhowch fanylion:

**9. Beth ydych chi'n ystyried yw eich cenedligrwydd?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prydeinig | | Saesneg | | Cymraeg | | Mae’n well gen i beidio â dweud | |
| Gwyddelig | | O Ogledd Iwerddon | | Albanaidd | | Arall, rhowch fanylion: | |

**10. Beth yw eich crefydd neu gred?**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Agnostig | | Anffyddiwr | | Baha'i | | Bwdhaidd | | Cristion | |
| Hindw | | Dyneiddiol | | Jain | | Iddewig | | Mwslimaidd | |
| Sikh | | Dim crefydd | | Mae’n well gen i beidio â dweud | | Arall, rhowch fanylion: | | | |

**11. Ydych chi'n ystyried eich bod yn ofalwr?**
(Gofalwr yw person sy'n gofalu am rywun â salwch neu anabledd tymor hir neu sy'n oedrannus ac na fedr ymdopi ar eu pen eu hunain heb gymorth. Nid yw hyn yn cynnwys cymorth a roddir fel rhan o'r gwaith cyflogedig).

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Mae’n well gen i beidio â dweud | |

**12. Pa ieithoedd ydych chi'n eu siarad yn rhugl?**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | | Saesneg | | Arall, rhowch fanylion: |

**13. Beth yw eich sgiliau Cymraeg?**

0 - Dim o gwbl, 1 - Ychydig, 2 - Canolig, 3 - eithaf da, 4 – Rhugl

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrando | | Siarad | | Darllen | | Ysgrifennu | |

**Diolch i chi am lenwi'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal hon**